# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## Gradd Sylfaen mewn Ffotograffiaeth



**Yn gryno**

Mae'r radd sylfaen hon mewn ffotograffiaeth yn cyfuno sgiliau ffotograffiaeth greadigol ag astudiaeth academaidd, fel eich bod yn gallu cyfleu eich creadigrwydd a'ch syniadau drwy ffotograffiaeth.

Yn y radd sylfaen hon mewn ffotograffiaeth, cewch edrych ar arbenigedd mewn ffotograffiaeth a datblygu arbenigedd a fydd yn rhoi modd i chi droi eich brwdfrydedd a'ch creadigedd yn yrfa. Byddwch yn datblygu sgiliau ffotograffiaeth ddigidol a ffilm broffesiynol ochr yn ochr â gwybodaeth am hanes ac ymarfer ffotograffig.

Mae'r cwrs yn golygu astudio am ddwy flynedd ar gampws Crosskeys, ac yn arwain at gymhwyster FDa Lefel 5. Mae'r cwrs hefyd yn gadael i chi symud ymlaen i flwyddyn 'ychwanegol' i gwblhau eich trydedd flwyddyn, ac ennill Gradd BA Anrhydedd lawn.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych yn greadigol

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn ffotograffiaeth

... Ydych o ddifrif am yrfa ym maes ffotograffiaeth

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r Radd Sylfaen mewn Ffotograffiaeth yn cynnwys popeth o ffotograffiaeth fasnachol mewn meysydd fel portreadau, priodasau, ffasiwn, golygyddol neu hysbysebu, hyd at gelfyddyd gain, celf gysyniadol a chelf arddangosfa. Bydd y cwrs cyffrous ac arloesol hwn yn datblygu eich gyrfa ffotograffiaeth, ac yn rhoi rhwydd hynt i chi fod y ffotograffydd rydych chi wastad wedi dychmygu cael bod.

Yn y cwrs ffotograffiaeth hwn, gallwch ddatblygu eich creadigedd a gweithio tuag at faes arbenigol. Byddwch yn datblygu sgiliau ffotograffiaeth ddigidol a thechnegau ffilm traddodiadol, ac mewn cyfryngau eraill hefyd fel delwedd symudol, sain, dylunio'r we, SEO, prosesau amgen, datblygu portffolio ac arddangosfa. Mae'r radd sylfaen hon mewn ffotograffiaeth yn un ymarferol gan mwyaf, ond mae'n datblygu dealltwriaeth o hanes ffotograffiaeth hefyd, er mwyn gallu gwerthfawrogi cyd-destun ffotograffiaeth yn well.

Mae'r ochr ymarferol yn cael ei chyflwyno drwy gyfuniad o weithdai, darlithoedd a thiwtorialau, yn ogystal â sgrinio, ymweld ag orielau, arddangosiadau, teithiau maes a thaith ryngwladol. Ar y cwrs, rydym yn falch o'n cysylltiadau â diwydiant, ac yn darparu llu o gyfleoedd i'n myfyrwyr weithio gyda phobl broffesiynol creadigol drwy brosiectau cleientiaid. Mae gennym bartneriaethau ers tro efo Ffotogallery, Porsche Automotive, RSPB a llawer o bartneriaethau eraill nodedig sy'n cydweithio â ni.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Drwy gyfres o brosiectau ymarferol a heriol, byddwch yn gwella eich gwybodaeth o dechnegau ffotograffig. Bydd pob modiwl ymarferol yn datblygu eich sgiliau technegol ac yn gosod aseiniadau cyffrous i ddatblygu eich creadigedd a gwella eich sgiliau efo'r camera.

Ar y cwrs, byddwch chi'n astudio ac yn ymchwilio i ffotograffiaeth ac yn datblygu sgiliau technegol ac artistig heb eu hail, gan ddefnyddio cyfleusterau pwrpasol. Bydd y rhain yn cynnwys ystafell dywyll wlyb draddodiadol, stiwdio broffesiynol, cyfrifiaduron o safon ddiwydiannol, meddalwedd trin lluniau, cymwysiadau ffilm, fideo a rhyngrwyd.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn edrych ar ffotograffiaeth lonydd a byw, yn arddangos eich gwaith, ac yn cynhyrchu portffolio gwaith cyfoethog, traethodau a llyfrau braslunio ymchwil.

Er mwyn cofrestru ar y cwrs, bydd angen i chi fod wedi llwyddo mewn tri phwnc TGAU gyda Gradd C neu uwch, gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Saesneg (neu gyfwerth). Bydd angen i chi fod ag un o'r canlynol hefyd:

Proffil BTEC perthnasol Lefel 3 gyda Theilyngdod/Teilyngdod
Graddau DD mewn Safon Uwch
Graddau DE mewn Safon Uwch a gradd C mewn Bagloriaeth Cymru
Mynediad i Addysg Uwch ble rydych chi wedi llwyddo mewn Diploma gyda 45 Llwyddo
Mae ceisiadau galwedigaethol/portffolio hefyd yn briodol i fyfyrwyr hyn

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn yn rhoi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen arnoch am yrfa mewn ffotograffiaeth, neu gallwch gwblhau'r drydedd flwyddyn i ennill Gradd BA (Anrh) lawn.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd disgwyl i chi brynu camera digidol SLR o ansawdd da efo cerdyn SD. Ar hyd y ddwy flynedd, bydd angen i chi ddarparu deunyddiau arddangos, fel llyfrau braslunio a phortffolios. Bydd angen i chi hefyd brynu eich printiau eich hun.

Efallai gofynnir i'r ymgeiswyr ddod i gyfweliad, cymryd rhan mewn sesiwn gweithdy, neu gyflwyno gwaith portffolio yn rhan o'r broses ddethol.

Prifysgol Metropolitan Caerdydd sydd yn breinio'r cwrs.

Cod y sefydliad yw C20

Cod y campws yw 7

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Camera DSLR, £300+. Gorfodol - N